

# Canllawiau Covid-19 i Ddeiliaid

## Trwyddedau Tacsis a Cherbydau Hurio

### Preifat

Mae gweithredwyr tacsis a cherbydau hurio preifat yn darparu gwasanaeth hanfodol i'r cyhoedd. O dan ganllawiau presennol y llywodraeth, mae modd iddyn nhw barhau i weithredu. Os ydych chi'n yrrwr tacsî sy'n gweithio yn ystod yr argyfwng COVID-19, mae'n debygol y byddwch chi'n poeni am eich iechyd a diogelwch eich hun, yn ogystal â'ch teithwyr.

Mae'r sefyllfa'n newid trwy'r amser felly y cyngor i deithwyr, gyrrwyr a gweithredwyr yw cael gwybod am y canllawiau teithio diweddaraf. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi [gwybodaeth am y Coronafeirws](#) (COVID-19) a [chynghor a chanllawiau](#) o ran teithio a thrafnidiaeth i [deithwyr](#) a [gweithredwyr](#).

Mae gan yrwyr a gweithredwyr ddyletswydd i ofalu am ddiogelwch eu teithwyr felly dyma eu cynghori i roi egwyddorion ac enghreifftiau yng nghanllawiau'r llywodraeth ar waith yn gamau penodol.

Bydd dilyn y cyngor diweddaraf o ran hylendid a chadw pellter cymdeithasol yn helpu i'ch cadw chi, a'ch cwsmeriaid, yn fwy diogel.

- Peidiwch â gweithio'n yrrwr na theithio os oes gyda chi COVID-19, neu unrhyw un o'r [prif symptomau](#) neu os ydych chi'n credu eich bod wedi dod i gysylltiad â theithiwr neu rywun arall sydd â'r feirws.
- Sicrhewch awyru da yn y cerbyd: agorwch ffenestri os yw'n gyfforddus a pheidio â gadael i'r system dymheru gylchredeg o gwmpas y cerbyd.
- Dilynwch [ganllawiau cadw pellter cymdeithasol](#) ac osgowch gyswllt corfforol: defnyddiwch ddulliau talu digyffwrdd lle bo modd.
- Golchwch eich dwylo'n rheolaidd a pheidio â chyffwrdd â'ch wyneb. Mae'n bosibl y bydd gyrrwyr eisïau cadw hylif diheintio dwylo a hancesi papur wrth law i'w defnyddio ganddyn nhw eu hunain a theithwyr.
- Ar ôl pob cwsmer, dylid glanhau'r cerbyd yn drylwyr gan ddefnyddio chwistrell diheintio, gan ganolbwyntio'n bennaf ar wynebau mae cwsmeriaid yn debygol o gyffwrdd â nhw megis handlenni drysau a gwregysau diogelwch.

- Dyma gynghori gyrwyr i lanhau rhannau'r cerbyd maen nhw'n cyffwrdd â nhw yn rheolaidd sawl gwaith trwy gydol y dydd ac ar ddechrau a diwedd pob sifft. Mae hyn yn cynnwys handlenni drysau, y llyw, brêc llaw a switshys.
- Doedd dim rhaid gwisgo [gorchuddion wyneb](#) yng ngherbydau hacni na cherbydau hurio preifat ar hyn o bryd yng Nghymru. Mae tystiolaeth yn awgrymu nad yw gwisgo gorchudd wyneb eich diogelu chi, ond mae'n bosibl y bydd yn diogelu eraill os oes gyda chi'r haint. Dylai gofyniad bod teithwyr yn gwisgo gorchudd wyneb fod yn glir cyn derbyn taith. Mae'n bwysig i deithwyr allu eich adnabod chi'n yrrwr dilys. Felly, byddwch yn barod i dynnu'ch gorchudd wyneb fel bod modd i deithwyr weld bod eich hunaniaeth yn cyd-fynd â'ch bathodyn trwydded, gan ddilyn canllawiau cadw pellter cymdeithasol priodol.
- Mae cynnydd wedi bod o ran diddordeb mewn defnyddio sgriniau fel ffordd o wahanu'n gorfforol rhwng gyrwyr a theithwyr er mwyn lleihau trosglwyddiad COVID-19. Does dim tystiolaeth ar gael sy'n dangos bod sgriniau mewn tacsis neu gerbydau hurio preifat yn lleihau'r risg o drosglwyddo haint COVID-19, ond mae'n bosibl byddan nhw'n achosi canlyniadau o ran yr hyn fyddai'n digwydd y tu mewn i'r cerbyd pe bai argyfwng. Mae'n bwysig bod gwaith gosod unrhyw sgrin amddiffynnol yn ddiogel ac nad yw'n achosi peryglon diogelwch newydd a difwriad. Dydy'r Cyngor ddim yn bwriadu ei gwneud hi'n ofyniad gosod sgriniau. Byddai angen i yrwyr sy'n dymuno gosod sgrin wneud hynny yn unol â pholisi'r Cyngor o ran gosod sgriniau diogelwch dros dro mewn cerbydau hurio preifat, gan gynnwys ceisio caniatâd yr adran drwyddedu. Mae polisi i'w weld yma.

Dydy gweithredwr cerbydau hurio preifat ddim o dan orfod i wneud cytundeb i ddarparu cerbyd hurio preifat i unrhyw un, ar yr amod nad yw unrhyw wrthodiad yn seiliedig ar nodweddion gwarchoddedig o dan adran 4 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodi a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a chyfnod mamolaeth, hil, crefydd neu gredo, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol). Mae canllawiau pellach o ran pryd byddai'n rhesymol gwrthod taith ar wefan y [sefydliad trwyddedu](#).

Mae gwybodaeth ddefnyddiol bellach ar gael ar wefan [Llywodraeth Cymru](#).

# Gweithdrefn Cymeradwyo Sgriniau Dros Dro mewn Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat

## Crynodeb

1. O safbwynt amodau trwyddedau'r Cyngor, mae angen i'r awdurdod trwyddedu gymeradwyo unrhyw addasiadau i'r cerbyd. Os yw gyrrwr/gweithredwr eisiau gosod sgrin dros dro, dylid dilyn y Weithdrefn Gymeradwyo isod.
2. Mae cyfrifoldeb ar y gyrrwr/gweithredwr i sicrhau bod y ddyfais wedi'i gosod yn cydymffurfio â rheoliadau'r llywodraeth a'r diwydiant, yn addas i'r diben ac yn peidio â pheryglu diogelwch y cyhoedd.
3. Mae angen glanhau a chynnal sgriniau yn rheolaidd.
4. Mae gan y Cyngor yr hawl i dynnu unrhyw sgriniau os oes pryderon o ran eu diogelwch, addasrwydd i'r diben neu gydymffurfiad â deddfwriaeth iechyd a diogelwch.

## Cyflwyniad

5. O ganlyniad i bandemig y Coronafeirws, rydyn ni wedi derbyn ymholiadau gan yrwyr yn ddiweddar o ran gosod sgriniau amddiffynnol yn eu cerbydau rhwng y seddau blaen a seddau cefn.
6. Mae sgriniau amddiffynnol yn darparu rhwystr corfforol rhwng gyrrwr a theithwyr yn y cerbyd. Maen nhw'n aml yn cael eu gosod fel nodwedd ddiogelwch i ddiogelu'r gyrrwr rhag ymosodiadau corfforol neu ladrad. Mae cynnydd wedi bod o ran diddordeb mewn defnyddio sgriniau fel ffordd o wahanu corfforol rhwng gyrrwr a theithwyr er mwyn lleihau trosglwyddiad COVID-19.
7. Does dim tystiolaeth ar gael sy'n dangos bod sgriniau mewn tacsis neu gerbydau hurio preifat yn lleihau'r risg o drosglwyddo COVID-19. Dydy sgriniau mewn tacsis na cherbydau hurio preifat ddim yn darparu adran wedi'i chau'n llawn sy'n gwahanu'r gyrrwr a'r teithiwr yn gyfan gwbl. Felly, er ei bod hi'n bosibl

bod sgriniau yn lleihau'r risg o drosglwyddo haint, fyddai'r risg ddim wedi'i dileu'n gyfan gwbl.

8. Mae'r Garfan Drwyddedu yn gwerthfawrogi bod rhaid croesawu unrhyw beth sy'n helpu i amddiffyn gyrwyr a theithwyr rhag lledaeniad y Coronafeirws, ond mae'n bwysig bod gwaith gosod unrhyw offer ôl-farchnad yn ddiogel ac yn peidio â chyflwyno peryglon diogelwch newydd a difwriad.
9. Ar ôl profion diogelwch cynhwysfawr, bydd cerbydau wedi cyflawni Cymeradwyaeth Math Cerbyd Cyfan Ewropeaidd a gall newid neu ychwanegu i'r tu mewn i'r cerbyd newid 'cymeradwyaeth math' y cerbyd. Yn ogystal â hyn, gallai unedau wedi'u gosod mewn ffordd wael a'u hadeiladu'n anaddas neu nwyddau wedi'u gwneud o ddefnyddiau anniogel gael effaith drychinebus pe bai cerbyd mewn damwain draffig.
10. Mae'r Cyngor yn effro i'r ffaith bod cwmnïau yn hysbysebu'r gosodiadau 'sydd wedi'u hasesu'n llawn o safbwynt risg' nad ydyn nhw'n cydymffurfio â gofynion cyfreithiol. Dylai gyrwyr hefyd fod yn ymwybodol ei bod hi'n bosibl y bydd gosod sgrin yn cael effaith ar allu cerbyd i basio Prawf y Weinyddiaeth Drafnidiaeth (MOT), lle mae sgriniau yn cyfyngu ar symudiad y seddi blaen. Dylai gyrwyr geisio cadarnhad annibynnol gan wneuthurwr y cerbyd, MIRA (neu gorff tebyg) a'u cwmni yswiriant cyn talu i osod sgrin na fydd, o bosibl, yn cydymffurfio nac yn ddiogel.
11. Mae amodau trwydded y Cyngor yn nodi:

***Newidiadau i gerbyd***

*Ni wneir unrhyw newidiadau sylweddol i fanyleb, dyluniad, cyflwr neu ymddangosiad y cerbyd heb gymeradwyaeth yr Awdurdod.*

12. Oherwydd y rhesymau yma, cyn gosod unrhyw sgrin yn eich cerbyd o'ch gwirfodd, rhaid i chi geisio cymeradwyaeth i osod sgrin dros dro gan ddilyn y weithdrefn isod.

**Gofynion Cyffredinol**

13. Penderfyniad y gyrrwr, perchennog a/neu weithredwr yw gosod sgrin ddiogelwch, a hynny ar ôl cynnal eich asesiad risg eich hun. O ganlyniad i amrywiaeth eang cerbydau a mathau gwahanol o sgriniau diogelwch sydd ar gael, does dim modd cynnig cyngor o ran prynu na gosod y dyfeisiau yma. Serch hynny, rhaid bodloni'r gofynion sylfaenol:

- a. Rhaid i'r ddyfais fod yn bwrpasol i'w defnyddio fel sgrin ddiogelwch mewn cerbyd a rhaid iddi fod yn addas ar gyfer gwneuthuriad a model penodol y cerbyd.
- b. Dylid peidio â lapio am sedd y gyrrwr a chreu rhwystr rhwng y ddwy sedd flaen, yn ogystal â'r caban cefn.
- c. Rhaid i waith gosod a / neu ddyluniad y ddyfais beidio â chael effaith ar gyfanrwydd strwythurol systemau diogelwch y gyrrwr a theithwyr (gan gynnwys bagiau aer) yn y cerbyd. Yn bennaf, rhaid i'r gosodiad ddilyn y canlynol:
  - i. Dylid peidio ag achosi risg ychwanegol i deithwyr a/neu'r gyrrwr yn ystod damwain a/neu wrth ddefnyddio'r cerbyd yn gyffredinol fel tacsï neu gerbyd hurio preifat.
  - ii. Dylid peidio ag ymyrryd â gweithrediad diogel y cerbyd a/neu nodweddion diogelwch y cerbyd ar unrhyw adeg.
  - iii. Dylid peidio â rhwystro neu ymyrryd â golwg y gyrrwr a/neu deithwyr mewn unrhyw ffordd.
- d. Rhaid i sgriniau gael eu gosod yn broffesiynol ac yn ddiogel a rhaid eu cynnal yn unol â manylebau ac argymhellion y gwneuthurwr.
- e. Dylai dyfeisiau fod heb grafiadau, cymylu a sticeri fyddai'n rhwystro golwg y gyrrwr neu'r teithiwr.
- f. Ddylai sgriniau ddim rhwystro symudedd y gyrrwr na'i ddull cyfathrebu â theithwyr.
- g. Ddylai sgriniau ddim rhwystro'r gyrrwr na'r teithiwr rhag mynd i mewn i'r cerbyd na'i adael. Ddylen nhw ddim achosi perygl baglu.

14. Os ydych chi wedi gosod sgrin ddiogelwch wedi'i chymeradwyo yn eich cerbyd, rhaid i chi sicrhau eich bod yn defnyddio hylif diheintio arferol i lanhau'r sgrin ar ôl pob taith, yn ogystal ag wynebau caled megis handlenni drysau, dyrnau ffenestri, gwregysau diogelwch, dyfeisiau talu, seddi blaen/cefn ac wynebau eraill mae'n bosibl bod teithwyr wedi cyffwrdd â nhw. Dylai gyrrwyr wedyn olchi/diheintio eu dwylo. Dylid glanhau'r cerbyd yn drylwyr gyda nwyddau glanhau arferol ar ddiwedd pob sifft/diwrnod gwaith.

15. Dylai'r perchennog sicrhau bod y sgrîn ddiogelwch yn cael ei chynnal a'i gwasanaethu'n gywir ac yn rheolaidd gan berson â'r cymwysterau priodol, a hynny yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr. Dylai'r perchennog wneud cofnodion ysgrifenedig o holl waith cynnal a gwasanaethu a'u cadw am o leiaf 12 mis. Dylai'r cofnodion ysgrifenedig yma fod ar gael ar gais swyddog awdurdodedig y Cyngor, neu Swyddog yr Heddlu.

### **Gweithdrefn Gymeradwyo**

16. Os ydych chi'n dymuno gosod sgrîn amddiffynnol, bydd angen i chi wneud cais i'r Cyngor trwy e-bostio [Adran.Trwyddedau@rhondda-cynon-taf.gov.uk](mailto:Adran.Trwyddedau@rhondda-cynon-taf.gov.uk) gan gadarnhau'r canlynol:

- a. Bydd y gwaith gosod yn cael ei gynnal yn unol â gofynion y polisi yma.
- b. Bydd eich yswiriant yn ddilys o hyd os byddwch chi'n gosod y sgrîn amddiffynnol.
- c. Mae'r ddyfais sydd i'w gosod yn cydymffurfio â rheoliadau'r llywodraeth a'r diwydiant. Fydd hi ddim yn peryglu diogelwch y cerbyd ac mae wedi'i chymeradwyo gan MIRA (neu gorff tebyg) i'w defnyddio yn y DU.
- d. Rydych chi'n cytuno i dynnu'r sgrîn amddiffynnol cyn pen 21 diwrnod o'r dyddiad y mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'n swyddogol ddiwedd y cyfyngiadau cadw pellter cymdeithasol presennol sy'n berthnasol i Covid-19.

17. Os bydd yr Awdurdod yn fodlon bod y gwaith gosod arfaethedig yn bodloni'r meini prawf wedi'u nodi uchod, bydd hawl gyda chi osod sgrîn ddiogelwch yn eich cerbyd.

18. Ar ôl i'r sgrîn gael ei gosod, rhaid i berchennog y cerbyd e-bostio'r Adran Drwyddedu gyda'r canlynol:

- a. Tystysgrif gan y sawl sydd wedi gosod y sgrîn neu dystiolaeth arall i brofi:
  - i. bod y sgrîn yn cydymffurfio â rheoliadau'r llywodraeth a'r diwydiant, er enghraifft Rheoliadau Cerbydau Ffyrdd (Adeiladu a Defnyddio) a deddfwriaeth diogelwch briodol y DU a'r Gymuned Ewropeaidd (EC);

ii. bod gwneuthurwr y cerbyd wedi ardystio nad yw'r sgrîn yn peryglu diogelwch y cerbyd; a

iii. bod y sgrîn wedi'i chymeradwyo gan MIRA (neu ymgynghoriaeth adeiladu a phrofi cynnyrch arweiniol gymeradwy debyg arall) i'w defnyddio yn y DU.

b. Llun(iau) o'r sgrîn wedi'i gosod yn y cerbyd.

c. Copi o e-bost perchennog/gweithredwr y cerbyd i'r cwmni yswiriant a chydabyddiaeth y cwmni yswiriant bod yr yswiriant yn ddilys o hyd.

19. Mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i orfodi tynnu'r sgrîn os nad yw'n fodlon ei bod yn ddiogel, yn addas i'r diben ac yn cydymffurfio â'r gyfraith.